# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 02/06/25 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 03/06/25 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 10/06/25 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC - Gwaredu diddordeb y Cyngor o dir sy'n gyfagos i Bron Afon, Borth y Gest.**

**PENDERFYNIAD**

Caniatáu gwarediad diddordeb rhydd-ddaliad y Cyngor mewn darn o dir sy'n gyfagos i Bron Afon, Borth y Gest ar delerau ac amodau sydd i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Efan Thomas MRICS<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 2 Mehefin 2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | P. J. Rowlinson |

**Pwnc :** Gwaredu diddordeb y Cyngor o dir sy'n gyfagos i Bron Afon, Borth y Gest.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Caniatáu gwarediad diddordeb rhydd-ddaliad y Cyngor mewn darn o dir sy'n gyfagos i Bron Afon, Borth y Gest ar delerau ac amodau sydd i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Derbyniwyd cais gan y Cyngor i brynu darn bach o dir sy'n ffinio â Bron Afon, Borth y Gest.

Bwriad y darpar brynwr yw ail-wynebu'r safle gyda tarmacadam a chreu mannau parcio. Gan fod y darpar brynwr yn berchen ar eiddo cyfagos, ystyrir bod y safle yn fwy gwerthfawr iddyn nhw yn hytrach nag unrhyw brynwr arall. Bydd y ddarpariaeth arfaethedig o leoedd parcio ceir hefyd o fudd i ddefnyddwyr yr Eglwys gyfagos. Byddai cymeradwyo'r penderfyniad sy'n ceisio gwerthu'n uniongyrchol i'r darpar brynwr yn golygu bod y Cyngor yn hepgor y costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r safle yn y tymor hir.

Fel rhan o'r trosglwyddiad, bwriedir cyfyngu'r defnydd fel man parcio ar gyfer cerbydau yn unig, a bwriedir hefyd gynnwys cymal i sicrhau bod y Cyngor yn adennill canran (50%) o'r cynnydd yng ngwerth y safle pe bai'r darpar brynwr yn ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddefnydd amgen ar gyfer y safle yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae'r safle yn cael ei ddefnyddio fel mynediad answyddogol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru gerllaw. Bydd yr ardal yn parhau i fod yn hygyrch i'r cyhoedd ei defnyddio am byth.

Byddai cymeradwyo'r argymhelliad a gwaredu'r eiddo yn uniongyrchol i'r ymgeisydd yn galluogi'r Cyngor i fwrw ymlaen yn ddi-oed i waredu'r eiddo ac osgoi costau diangen mewn perthynas â'r safle a'i gynnal a chadw.

Nid oes unrhyw fwriad i dderbyn llai na Gwerth Marchnad ar gyfer yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**


Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** – Dewi Morgan – "Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol."

**Swyddog Monitro** – Iwan Evans – "Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb "

**Aelod/au Lleol**: Cynghorydd Gwilym Jones – "Oes gen i ddim gwrthwynebiad hefo trosglwyddo yr eiddo yma tra bod y "safeguards" fel sudd wedi ei disgrifio yn eich e-bost mewn lle."




**Tir rhwng Bron Afon a'r Eglwys // Land between Bron Afon and the Church**

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd